# Arweiniad atodol:

## arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles

Medi 2022

Estyn

estyn.llyw.cymru
@EstynAEF

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru.  Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy’n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon / cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2022:  Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen / cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw’r diben?**

Rhoi arweiniad i arolygwyr ar gyfer gwerthuso dulliau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

**Ar gyfer pwy mae wedi’i fwriadu?**

Arolygwyr ysgolion cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig a gynhelir, unedau cyfeirio disgyblion, lleoliadau nas cynhelir, a gwasanaethau addysg llywodraeth leol

**Pryd y dylid dechrau defnyddio’r arweiniad?**

Medi 2022

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


Arweiniad atodol 1

1 Cyflwyniad 2

2 Gofynion adrodd a materion i arolygwyr eu hystyried 3

3 Beth rydym yn ei arolygu 5

4 Sut rydym yn arolygu 13

5 Cwestiynau enghreifftiol 15

Atodiad 1: Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim 22

Atodiad 2: Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL) 24

Atodiad 3: Cyllid grant 28

Atodiad 4: Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol 38

## Arweiniad atodol

Dogfennau allweddol Estyn sy'n llywio gweithgarwch arolygu yw'r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae'r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion, ystyriaethau ac adnoddau allweddol ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â phob sector sy'n cael ei arolygu gan Estyn, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar rai agweddau ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Efallai bydd arolygwyr yn gweld y dogfennau arweiniad atodol yn ddefnyddiol wrth ymateb i gwestiynau penodol sy'n dod i'r amlwg sy'n codi yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Nid yw'n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn hollgynhwysfawr wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad, ac nid ydynt yn ddogfen derfynol a chynhwysfawr. Gallai'r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o'n trefniadau arolygu. Hefyd, gallent fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi'i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn arolygu â meddylfryd gadarnhaol i sicrhau bod y staff ym mhob darparwr yn cael y profiad dysgu proffesiynol gorau posibl
- Bydd arolygwyr yn defnyddio dull arolygu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau'r arolygiad yn unol â'r amgylchiadau ym mhob darparwr cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn hyblyg ac yn ymatebol i ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg, a byddant yn defnyddio'r ystod gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r gwendidau yn unig ym mhob darparwr

## 1 Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys arweiniad ar arolygu pa mor effeithiol y mae ysgolion a gynhelir, UCDau a gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a/neu'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Mae'r arweiniad yn darparu sylwadau a chwestiynau i arolygwyr eu hystyried wrth werthuso tystiolaeth i bennu effaith y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion / UCDau i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a/neu'r rhai o aelwydydd incwm isel. Mae wedi'i rannu'n ddwy adran sy'n edrych ar beth rydym yn ei arolygu a sut rydym yn arolygu. Mae'r adran ar beth rydym yn ei arolygu yn amlinellu'r hyn y mae angen i arolygwyr ei ystyried ynghylch mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol o ran pob maes arolygu. Dylid darllen yr arweiniad ar y cyd â'r adran ar sut rydym yn arolygu, sy'n esbonio'r dulliau y gallai arolygwyr eu defnyddio pan fyddant yn ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol wrth wraidd Cenhadaeth ein Cenedl ar gyfer addysg. Mae'r Gweinidog Addysg wedi nodi bod gwaith i sicrhau Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb yn cael ei ategu gan ddwy egwyddor allweddol, sef:

Mae angen dull system gyfan sy'n cynnwys addysg a gofal mewn plentyndod cynnar, addysg gynradd ac uwchradd ac addysg ôl-16, hyfforddiant a dysgu gydol oes.

- Pwysigrwydd canolog dysgu ac addysgu o ansawdd uchel ac ysgolion yn mabwysiadu dull ysgolion cymunedol sy'n estyn allan i deuluoedd, ystod eang o asiantaethau a phob rhan o'r system addysg a dysgu gydol oes

Yn ei araith i Sefydliad Bevan (16 Mehefin 2022), nododd y Gweinidog y byddai wyth maes ffocws yn gyrru llwyddiant wrth sicrhau Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb:

- Dysgu ac addysgu o ansawdd uchel
- Ysgolion cymunedol
- Addysg a gofal mewn plentyndod cynnar
- Iechyd a lles plant a phobl ifanc
- Datblygu dyheadau uchel trwy berthnasoedd cryf
- Y Cwricwlwm i Gymru a Chymwysterau
- Arweinyddiaeth
- Dilyniant Ôl-16

Wrth arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion, UCDau a gwasanaethau addysg llywodraeth leol i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles, bydd yn bwysig sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried ym maes arolygu perthnasol y Fframwaith Arolygu Cyffredin.

Ar hyn o bryd, y ffordd i fesur anfantais y cytunwyd arni yn genedlaethol, mewn cyd-destun ysgol, yw p'un a yw disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fel arfer, mae ysgolion â chyfrannau uwch o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwasanaethu cymunedau â lefelau uwch o anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'r arweiniad hwn hefyd yn cyfeirio at ddisgyblion o deuluoedd incwm isel, gan gydnabod nad yw pob disgybl sy'n byw mewn tlodi yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ond yn profi effeithiau byw mewn tlodi. Mae hefyd yn adlewyrchu cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) yn raddol ar gyfer disgyblion o 2022. Nod Llywodraeth Cymru yw y bydd yr holl ddisgyblion oedran cynradd yn cael prydau ysgol am ddim erbyn 2024 yn ystod y tymor ysgol.

Dylid darllen yr arweiniad ar y cyd â'r ffynonellau gwybodaeth defnyddiol a restrir yn Atodiad 4.

## 2 Gofynion adrodd a materion i arolygwyr eu hystyried

Bydd arolygwyr yn **adrodd** ar gynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel ym maes arolygu 1 adroddiadau[1]. Byddant yn **adrodd** ym maes arolygu 5 hefyd. Dylai hyn gynnwys y graddau y mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, a pha mor dda y mae arweinwyr ysgol yn defnyddio grantiau penodol i wella deilliannau ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Lle ceir cryfderau neu ddiffygion pwysig, dylai arolygwyr roi sylwadau hefyd am agweddau ar les disgyblion ac ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion.

Wrth arolygu'r dulliau a ddefnyddir gan ysgolion i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, bydd arolygwyr yn ystyried y canlynol o ran disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel:

- cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac/neu o aelwydydd incwm isel
- y cynnydd a wna'r disgyblion hyn wrth ddysgu o'u mannau cychwyn unigol
- lles y disgyblion hyn
- ansawdd yr addysgu a gânt

[1] Rydym yn cydnabod y bydd ysgolion ar wahanol gamau o ran mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol neu y bydd ganddynt nifer fach o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim/aelwydydd ag incwm isel. Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, rydym yn gweithio tuag at ofyniad adrodd ym MA1. Ar hyd tymor yr hydref 2022, byddwn yn dechrau dull cam wrth gam o ran sut rydym yn adrodd ar gynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel. Os gall ysgol ddangos bod ei gwaith ym meysydd arolygu 3 a 4 o fudd i ddisgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi, bod effaith arweinyddiaeth gref yn y maes hwn yn amlwg ac wedi'i thriongli gan ein tystiolaeth arolygu, byddwn yn ceisio adlewyrchu hyn mewn sylw am sut mae hyn yn cael effaith ar gynnydd. Os bydd ysgolion yn datblygu eu gwaith yn y maes hwn o hyd a'i fod yn rhy gynnar i weld yr effaith lawn, byddwn yn trafod eu dulliau ond ni fyddwn yn adrodd ar gynnydd disgyblion, o reidrwydd.

- priodoldeb y cwricwlwm ar gyfer y disgyblion hyn, gan gynnwys darpariaeth i'w cynorthwyo i fod yn ddysgwyr effeithiol a gwydn, a'r cyfle a gânt i ddilyn amrywiaeth eang o gymwysterau sy'n gweddu i'w hanghenion
- rôl yr ysgol o fewn y gymuned ehangach a pha mor dda y mae'n gweithio gydag asiantaethau eraill sy'n darparu cymorth i ddisgyblion a'u teuluoedd
- pa mor dda y mae darparwyr yn datblygu partneriaethau i gefnogi anghenion disgyblion a theuluoedd a dysgu cymunedol
- pa mor dda y mae darparwyr sy'n gwasanaethu'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn darparu gwasanaethau integredig cynhwysfawr i gynorthwyo disgyblion a theuluoedd
- pa mor dda y mae darparwyr yn sefydlu perthnasoedd cryf gyda theuluoedd a pha mor dda y maent yn ymgysylltu â nhw i fynd i'r afael ag effaith unrhyw anfantais
- pa mor dda y mae darparwyr yn annog ac yn cynorthwyo disgyblion i gael dyheadau uchel trwy drefnu eu bod yn gallu troi, er enghraifft, at weithwyr ieuenctid, cyngor ac arweiniad o ansawdd uchel ar yrfaoedd, mentrau i gynorthwyo dysgwyr mwy abl a thalentog a chymorth i'w helpu i symud ymlaen i'r cam nesaf mewn dysgu neu gyflogaeth
- effaith dulliau a gynlluniwyd i wella'u cyrhaeddiad, eu cynnydd a'u lles
- y graddau y mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth briodol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles, gan gynnwys datblygu diwylliant dyheadol yn yr ysgol / y darparwr sy'n hyrwyddo'r gred fod pob un o'r disgyblion yn llwyddo er gwaethaf eu cefndir economaidd-gymdeithasol
- y graddau y mae darparwyr yn defnyddio dull strategol a chydlynus o wella cyrhaeddiad, cynnydd a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel
- pa mor dda y mae darparwyr yn cydweithio ag asiantaethau eraill i ddarparu ymyrraeth a chymorth cynnar ar gyfer y dysgwyr ieuengaf, er enghraifft trwy waith gydag ymwelwyr iechyd, lleoliadau nas cynhelir a phartneriaethau awdurdodau lleol
- pa mor dda y mae ysgolion yn defnyddio adnoddau, gan gynnwys grantiau penodol wedi'u targedu at y disgyblion hyn, fel y Grant Datblygu Disgyblion (GDD)
- pa mor dda y mae ysgolion yn gwerthuso effaith y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel
- ansawdd dysgu proffesiynol sy'n helpu athrawon i ddeall, cyflwyno a gwerthuso strategaethau effeithiol sy'n cyfrannu at fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Mae Atodiad 2 yn amlinellu sut gallai arolygwyr ystyried y maes hwn yn ystod arolygiadau o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol.

## 3 Beth rydym yn ei arolygu

### Maes Arolygu 1: Dysgu

Dylai arolygwyr adrodd ar y cynnydd a wna disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel, a pha mor dda y maent yn datblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau. O dan faes arolygu 1 (Dysgu), dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel:

- yn datblygu'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u mannau cychwyn
- yn gwneud cynnydd, yn enwedig ers dechrau'r ysgol, o un sector i un arall, ac yn ystod y flwyddyn ysgol
- yn galw dysgu blaenorol i gof, yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau
- yn cymhwyso eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd newydd, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth
- yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallant mewn cysylltiad â'u mannau cychwyn
- yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i elwa ar y cwricwlwm cyfan a dysgu'n effeithiol
- yn meddu ar y medrau llythrennedd (Cymraeg/Saesneg), rhifedd a digidol sydd eu hangen arnynt, ac yn eu defnyddio yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm
- yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol, yn datrys problemau ac yn dod o hyd i atebion amgen a chreadigol
- yn datblygu eu medrau technegol a galwedigaethol
- yn datblygu eu medrau cymdeithasol
- yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol

Dylai arolygwyr; ystyried dadansoddiad yr ysgol o berfformiad a chynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel sy'n cwmpasu cyfnod, fel arfer dros y tair blynedd ddiwethaf, i nodi tueddiadau cyffredinol ym mherfformiad y grŵp hwn o ddisgyblion. Dylai arolygwyr ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â'u tystiolaeth eu hunain o arsylwadau gwersi, trafodaethau gyda'r disgyblion hyn, a chraffu ar eu gwaith ysgrifenedig, ymarferol a digidol. Bydd arolygwyr yn adrodd ar gynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel mewn adroddiadau arolygu.

**Enghreifftiau adrodd:**

"Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd ar gyflymdra sy'n debyg i'w cyfoedion."

"Wrth iddynt symud trwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd cryf o'u mannau cychwyn."

## Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

### 2.1 Lles

Mae'r arweiniad yn adran 2.1 y Llawlyfr Arweiniad Arolygu ar werthuso lles yn berthnasol wrth ystyried lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu o aelwydydd incwm isel:

- yn dod yn unigolion iach a hyderus, er enghraifft trwy weithgarwch corfforol neu drwy ddiet iach
- yn deall pwysigrwydd gofalu am eu lles emosiynol, gan gynnwys aros yn ddiogel ar-lein, ac yn rhoi'r wybodaeth hon ar waith
- yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain ac yn chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol
- yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a bod y cyfraniadau a wnânt yn ystyrlon

Wrth werthuso safonau lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel, dylai arolygwyr ystyried ble mae hyn yn arbennig o gryf neu wan o gymharu â lles eu cyfoedion, ac adrodd ar hyn trwy eithriad.

### 2.2 Agweddau at ddysgu

Dylai arolygwyr werthuso i ba raddau y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel yn datblygu'r agweddau a'r ymddygiadau allweddol a fydd yn eu helpu i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

Yn benodol, dylai arolygwyr ystyried y canlynol o ran disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel:

- y graddau y maent yn ddysgwyr uchelgeisiol, hyderus, medrus ac annibynnol
- pa mor dda y maent yn ymgymryd â phrofiadau a syniadau newydd ac anghyfarwydd
- lefel eu diddordeb yn eu gwaith, a pha mor dda y maent yn dal ati i ganolbwyntio ac yn osgoi pethau sy'n tynnu eu sylw
- pa mor barod ydynt i ymgymryd â thasgau, a'u cwblhau
- pa mor dda y maent yn dyfalbarhau neu'n chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau
- eu goddefgarwch o bobl eraill a sut maent yn uniaethu a'u cyfoedion a staff
- y graddau y mae disgyblion yn dangos parch at gyfraniadau pobl eraill, er enghraifft trwy ganiatáu i bobl eraill siarad neu drwy aros yn bwyllog pan fydd pobl eraill yn anghytuno â nhw
- pa mor dda y maent yn deall ac yn ymateb i adborth gan oedolion a'u cyfoedion
- pa mor effeithiol y maent yn defnyddio adborth i symud eu dysgu yn ei flaen
- eu parodrwydd i ddysgu, a'u dyheadau i gyflawni mewn bywyd

Dylai arolygwyr roi sylw penodol i gyfraddau presenoldeb ac ymgysylltu'r disgyblion hyn, ac adrodd ar y rhain trwy eithriad, h.y. lle mae tuedd glir o bresenoldeb gwan neu gryf iawn neu os yw wedi gwella neu ddirywio yn sylweddol. Dylent ystyried unrhyw amrywiadau nodedig rhwng presenoldeb y disgyblion a disgyblion eraill. Dylent ganolbwyntio'n benodol ar gyfradd absenoldebau parhaus ac ystyried faint o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / y rhai o aelwydydd incwm isel sydd â chyfraddau absenoldeb ymhell uwchlaw disgyblion eraill yn yr ysgol. Dylai arolygwyr ystyried cyfraddau gwaharddiadau ymhlith y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim a grwpiau eraill o ddisgyblion yn yr ysgol.

Wrth werthuso cyfranogiad a mwynhad mewn dysgu, dylai arolygwyr ddefnyddio tystiolaeth o wersi, craffu ar waith, trafodaethau gyda disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / y rhai o aelwydydd incwm isel, ac ystyried eu hymgysylltiad yn ystod amser cinio, clybiau ar ôl yr ysgol a gweithgareddau sy'n ymestyn eu dysgu a'u profiad. Dylent roi sylw penodol i ddyheadau disgyblion.

## Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

O dan faes arolygu 3, dylai arolygwyr werthuso effaith addysgu a phrofiadau dysgu ar sicrhau cyfraddau da o ran cynnydd a safonau uchel ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel. O ran y disgyblion hyn, dylai arolygwyr ystyried:

### 3.1 Ehangder, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm:

- effaith unrhyw strategaethau neu ddulliau wedi'u hanelu at wella deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn
- y graddau y mae profiadau dysgu yn darparu disgwyliadau a her uchel ar gyfer y disgyblion hyn
- effaith dulliau o drefnu disgyblion mewn grwpiau ar sail cyrhaeddiad blaenorol, a ph'un a yw hyn yn cael effaith gadarnhaol neu effaith negyddol ar gynnydd y disgyblion hyn
- pa mor dda y mae'r ysgol yn teilwra ei chwricwlwm a dysgu y tu allan i'r ysgol i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel. Gallai hyn gynnwys dulliau dysgu cyfunol a ddatblygwyd yn ystod pandemig y coronafeirws
- ansawdd y ddarpariaeth i wella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yr *holl* ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / o aelwydydd incwm isel, nid y rhai gallu is yn unig
- pa mor effeithiol y mae rhaglenni ymyrraeth dargedig yn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn eu medrau llythrennedd a rhifedd
- ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth oddi ar y safle, grwpiau anogaeth neu ddarpariaeth cynhwysiant wrth ddiwallu anghenion y disgyblion hyn, sy'n eu helpu i ennill cymwysterau gwerthfawr a chyflawni llwybrau ystyrlon i'r cam nesaf yn eu dysgu
- pa mor dda y mae'r ysgol yn ymestyn ei chwricwlwm i gymell ac ysbrydoli'r disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu o aelwydydd incwm

isel i ddysgu a'u galluogi i ddatblygu eu dyheadau eu hunain, er enghraifft trwy chwarae rôl yn ddilys, cyfleoedd i ymweld â cholegau a phrifysgolion a phobl o'r byd gwaith, a gweithio gyda nhw

- pa mor dda y mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel gymryd rhan mewn profiadau cyfoethogi a dysgu y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys teithiau ac ymweliadau addysgol lle nad yw cost yn rhwystr rhag dysgu
- pa mor dda y mae ysgolion yn darparu cyfleoedd ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel sy'n cefnogi neu'n arwain eu dyheadau i lwyddo neu gael swydd yn y dyfodol, ac mewn ysgolion uwchradd, ansawdd ac effaith addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith ar gyfer y disgyblion hyn
- y graddau y mae trefniadau cwricwlwm y darparwr yn sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel yn caffael y wybodaeth a'r medrau angenrheidiol mewn gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu (Cymraeg a Saesneg), rhifedd a medrau digidol i gefnogi eu gwaith a galluogi cynnydd ar draws y cwricwlwm

### 3.2 Addysgu ac asesu

- y graddau y mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel
- pa mor dda y mae athrawon yn defnyddio strategaethau dysgu ac addysgu wedi'u llywio gan dystiolaeth i helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd
- pa mor effeithiol y mae athrawon yn gwneud eu hystafelloedd dosbarth yn lleoedd ysgogol a difyr ble gall pob un o'r disgyblion ddysgu'n gynhyrchiol
- pa mor effeithiol y mae athrawon yn cyfathrebu â rhieni a theuluoedd am eu disgwyliadau a'r hyn y gall teuluoedd ei wneud i helpu eu plant i lwyddo
- pa mor dda y mae athrawon yn cynllunio i sicrhau mynediad cyfartal at y cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae athrawon ac ymarferwyr eraill yn rheoli ymddygiad yr holl ddisgyblion, a ph'un a yw pob un o'r disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal a gyda pharch, ni waeth beth yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol
- pa mor dda y mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn helpu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a'r hyn y gallant ei wneud i wella
- pa mor dda y mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth i asesu cynnydd a datblygiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn benodol i nodi a ydynt mewn perygl o dangyflawni
- pa mor dda y mae athrawon yn monitro cynnydd y disgyblion hyn
- pa mor dda y mae staff, gan gynnwys staff cymorth, yn gweithio gyda disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i gyflymu eu cynnydd os oes angen
- pa mor dda y mae athrawon, gan gynnwys staff cymorth, yn defnyddio adborth ac adroddiadau llafar ac ysgrifenedig i deilwra cymorth ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel

## Maes Arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad

### 4.1 Datblygiad personol

Trwy ddefnyddio cymorth ac ymyrraeth hynod effeithiol wedi'u targedu at ddiwallu anghenion a bodloni uchelgeisiau disgyblion, gall ysgolion wneud gwahaniaeth i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae cymorth yn diwallu anghenion y disgyblion hyn, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol
- pa mor dda y mae strategaethau ymyrraeth yr ysgol, mentora neu hyfforddi unigolion neu gymorth penodol ar gyfer eu lles yn helpu'r disgyblion hyn i wneud cynnydd yn eu dysgu
- pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgol ac elwa ar bopeth y gall ei gynnig
- pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i'w helpu i gynorthwyo eu plant yn dda a chodi unrhyw faterion a allai effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn. Yn benodol, dylai arolygwyr ystyried effaith rôl swyddog ymgysylltu â theuluoedd yr ysgol neu'i debyg yn y gwaith hwn
- pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda'r gymuned a sefydliadau lleol i gefnogi anghenion a dyheadau'r disgyblion hyn
- pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â gwasanaethau ac asiantaethau arbenigol i gefnogi anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel
- pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel sydd ag angen dysgu ychwanegol hefyd
- pa mor dda y mae'r ysgol yn darparu mynediad at adnoddau nad ydynt efallai ar gael gartref i'r disgyblion hyn, er enghraifft cyfrifiadur neu le tawel i weithio
- pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel, i ymgymryd â chyfrifoldebau a chyfranogi yn yr ysgol a'r gymuned ehangach
- pa mor dda y mae'r ysgol yn galluogi'r disgyblion hyn i gyfrannu at wneud penderfyniadau ar lefel ysgol, er enghraifft cyfleoedd i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, a sut, a chynrychioli eu cyd-ddisgyblion mewn grwpiau fel y cyngor ysgol
- pa mor dda y mae'r ysgol yn cynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i wneud dewisiadau gwybodus, er enghraifft pan fydd disgyblion hŷn yn ystyried cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4, y chweched dosbarth ac ar gyfer addysg bellach neu addysg uwch
- ansawdd arweiniad a chyngor diduedd ar gyfer y disgyblion hyn, a sut mae hyn yn eu helpu i gyflawni eu nodau a'u dyheadau o ran dewisiadau gyrfa yn y dyfodol
- pa mor dda y mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol yn cefnogi datblygiad eu medrau cymdeithasol ac emosiynol

- pa mor dda y mae'r ysgol yn mynd ati i ddatblygu hyder, cymhelliant a hunan-barch disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor dda y mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n ymwybodol o effaith tlodi yn fyd-eang, ac yn eu cynorthwyo i nodi ffyrdd o wella eu hamgylchiadau eu hunain neu amgylchiadau pobl eraill
- effeithiolrwydd y camau a gymerir i fonitro iechyd meddwl a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- effeithiolrwydd dull yr ysgol ar gyfer diogelu, yn enwedig ar gyfer y disgyblion hynny sydd dan anfantais yn sgil tlodi, ac yn fregus

### 4.2 Diogelu

Gweler yr arweiniad atodol ar Arolygu Diogelu

Yn benodol, dylai arolygwyr ystyried:

- pa mor dda y mae'r ysgol yn monitro presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o gefndiroedd incwm isel
- ansawdd y cymorth a'r ymyrraeth y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o gefndiroedd incwm isel sy'n absennol yn barhaus
- pa mor dda y mae'r ysgol yn monitro lles y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o gefndiroedd incwm isel sydd ar Y Gofrestr Amddiffyn Plant neu sy'n derbyn cymorth gan wasanaethau arbenigol

## Maes Arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth

Dylai arweinwyr roi ystyriaeth briodol i'r angen i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. O dan faes arolygu 5.1 (Ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr), dylai arolygwyr ystyried **ac adrodd ar:**

- ba mor dda y mae arweinwyr yn sefydlu diben a gweledigaeth glir yn yr ysgol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol
- pa mor dda y mae arweinwyr yn sefydlu diwylliant cryf o ddisgwyliadau uchel i bawb, a dealltwriaeth ar y cyd ar draws yr ysgol na fydd tlodi yn esgus am gyrhaeddiad isel
- effeithiolrwydd yr ymagwedd strategol a gweithredol at yr her hon
- pa mor benderfynol y mae arweinwyr yn canlyn diddordebau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o gefndiroedd incwm isel
- pa mor dda y mae pob un o'r staff yn deall ac yn dangos eu cyfrifoldeb i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol
- pa mor drylwyr y mae arweinwyr yn rheoli perfformiad staff i gefnogi a gwella eu gwaith i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol, yn enwedig o ran ansawdd yr addysgu
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr holl benderfyniadau a wneir am faterion strategol a gweithredol yn ystyried yr effaith y bydd unrhyw benderfyniad yn ei chael ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o

gefndiroedd incwm isel, er enghraifft ar grwpiau disgyblion, defnydd o gyllid, defnydd o staff

- pa mor dda y mae arweinwyr yn defnyddio gwybodaeth am y gymuned i nodi problemau posibl a allai effeithio ar ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio gan dlodi, er enghraifft argaeledd gofal iechyd
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn cynllunio darpariaeth yn strategol i gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gan roi ystyriaeth briodol i Genhadaeth ein Cenedl
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn sefydlu partneriaethau cryf gyda theuluoedd, y gymuned ac amrywiaeth o asiantaethau a gwasanaethau i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel i'w helpu i gyflawni eu potensial a chyflawni eu dyheadau
- pa mor dda mae arweinwyr yn cydweithio â phartneriaid i gefnogi cyfnodau pontio di-dor o addysg gynnar trwodd i goleg a gyrfa
- pa mor dda y mae arweinwyr yn rheoli adnoddau ariannol, gan gynnwys cyllid grant, i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n effeithiol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad
- pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau mynediad at ddysgu proffesiynol ac ymchwil am sut orau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad, ac yn gwerthuso effaith y dysgu hwn
- pa mor dda y mae arweinwyr yn gwerthuso strategaethau, mentrau a darpariaeth graidd yn systematig i ystyried eu heffeithiolrwydd a'u heffaith ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel

**Enghreifftiau adrodd:**

1 "Mae arweinwyr a staff yr ysgol yn meddu ar ddealltwriaeth gref o anghenion y disgyblion a'r gymuned leol. Maent yn gweithio'n angerddol a gydag ymroddiad i ddiwallu'r anghenion hyn gan roi ystyriaeth briodol i reoli effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu fywiog lle mae gan bob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ymdeimlad cryf o berthyn, ac yn datblygu'r hyder a'r medrau i ymgysylltu'n gadarnhaol â phrofiadau dysgu."

2 "Mae'r ysgol yn rheoli a defnyddio'i hadnoddau i fynd i'r afael ag effaith tlodi yn dda, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Mae arweinwyr yn monitro gwariant cynlluniedig yn erbyn meini prawf y grant yn dda. Mae hyn wedi galluogi'r ysgol i ddarparu cymorth priodol â llythrennedd, rhifedd a lles ar gyfer ei dysgwyr bregus, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae llywodraethwyr yn rhoi sylw i gau'r bwlch o ran tlodi a nodi'r effaith gadarnhaol y mae siop dros dro'r ysgol yn ei chael ar gynorthwyo teuluoedd mewn angen ariannol."

## Arolygu ysgolion cymunedol

Mae datblygu ysgolion cymunedol yn rhan annatod o'r dull cenedlaethol i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Bydd ysgolion ar wahanol gamau o ran

datblygu eu hymagwedd at strategaethau ysgolion cymunedol.

Bwriad y pwyntiau canlynol yw cynorthwyo arolygwyr i werthuso'r camau y gallai ysgolion fod yn eu cymryd i weithio gyda'u cymuned ehangach:

- pa mor dda y mae arweinwyr yn sefydlu diwylliant sy'n rhoi'r gymuned wrth wraidd bywyd yr ysgol
- pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gyda phartneriaid strategol ac yn cydweithio ag ystod o asiantaethau i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn cynnwys yr ysgol a'r gymuned ehangach, gan gynnwys rhieni mewn adolygu gweledigaeth, nodau a gwerthoedd yn barhaus, yn enwedig yn gysylltiedig â'r dull y mae'r ysgol yn ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag anfantais
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn cynllunio'n strategol, gan gynnwys trwy ddefnyddio cyllid grant, i fynd i'r afael ag anfantais fel defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar neu gyllid i gyflogi staff ymgysylltu â theuluoedd
- pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd staff am strategaethau i ddiwallu anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel a'u teuluoedd
- pa mor dda y mae'r ysgol yn defnyddio staff arbenigol i ymgysylltu â theuluoedd fel swyddogion ymgysylltu â theuluoedd a'r rhai sydd â rôl mewn cefnogi ymgysylltu â'r gymuned a diwallu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o deuluoedd incwm isel
- pa mor dda y mae'r ysgol yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl broffesiynol i ddarparu ymyrraeth gynnar ar gyfer plant o deuluoedd incwm isel, er enghraifft trwy gysylltiadau agos â Dechrau'n Deg, ymwelwyr iechyd a lleoliadau nas cynhelir
- pa mor effeithiol y mae'r ysgol yn defnyddio amrywiaeth o bobl broffesiynol i gynorthwyo disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel, er enghraifft gweithwyr ieuenctid, cynghorwyr gyrfaoedd, neu bobl broffesiynol o sefydliadau'r trydydd sector
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr yn ehangu ar ddefnyddio asedau'r ysgol ei hun trwy gydweithio â'r gymuned a hyrwyddo dysgu oedolion yn y gymuned
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr ysgolion yn y cymunedau difreintiedig yn partneru ag asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaethau cymorth integredig sy'n targedu iechyd a lles, anghenion corfforol, gwybyddol a chymdeithasol
- pa mor dda y mae arweinwyr yn gwerthuso'u dull ysgol bro a'r effaith a gaiff ar fynd i'r afael ag anfantais

## 4 Sut rydym yn arolygu

Dylai ein dull o arolygu pa mor dda y mae ysgolion yn mynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol fod yn llinyn trwy bob maes arolygu. Er bod y gofynion adrodd ym MA1 a MA5, dylai arolygwyr ystyried effeithiolrwydd y camau y mae ysgolion yn eu cymryd i leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol ym mhob maes arolygu. Mae hyn yn cynnwys trwy ddarpariaeth ym MA3 a chymorth ym MA4, ac effaith hyn ar ddysgu a lles.

Dylem ddechrau trwy gael sgwrs ag arweinwyr ysgolion am gyd-destun yr ysgol a lefelau anfantais economaidd-gymdeithasol yn y gymuned. Dylai fod penaethiaid ac uwch arweinwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gref o gyd-destun cymuned ehangach yr ysgol, gan gynnwys mewnwelediad i gyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Dylent ddeall yr heriau sy'n wynebu'r disgyblion hyn yng nghyd-destun eu cymuned, a sut mae'r rhain yn cael effaith ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Efallai byddai'n fuddiol i arolygwyr ystyried gwybodaeth arall am y gymuned leol fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.

Dylai darparwyr drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o deuluoedd incwm isel, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio cychwynnol ac asesiadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i werthuso cynnydd disgyblion, i lunio barn am y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni o gymharu â'u mannau cychwyn, a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau i ddylanwadu ar eu cynllunio a'u gwersi.

Bydd angen i dimau arolygu allu gweld samplau o waith yn benodol gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel.

Dylai arolygwyr edrych ar dystiolaeth am grwpiau o ddisgyblion, er enghraifft y rhai sydd wedi'u seilio ar gyrhaeddiad neu grwpiau o ddisgyblion yn manteisio ar ddarpariaeth arbenigol / darpariaeth oddi ar y safle. Dylai'r ysgol allu darparu gwybodaeth am wasgariad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / o deuluoedd incwm isel ar draws gwahanol grwpiau neu ddosbarthiadau disgyblion.

Bydd angen i arolygwyr gyfarfod ag unrhyw staff sy'n gyfrifol am waith ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned i ddod i wybod am y cymorth y maent yn ei ddarparu i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o deuluoedd incwm isel. Dylent drafod sut maent yn sefydlu perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda theuluoedd a'r gymuned. Hefyd, dylai'r cyfarfodydd hyn ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am y mathau o ymyrraeth a chymorth a ddarperir, a'r effaith y maent yn ei chael ar leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion.

Os yw'r darparwr yn gweithio gyda thimau amlasiantaethol a grwpiau cymunedol eraill, dylai'r tîm arolygu drefnu cyfarfod â grŵp ffocws o bobl broffesiynol i werthuso effaith y gwaith hwn.

Os oes llywodraethwr yn gyfrifol am effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles, yna dylai'r tîm arolygu geisio cyfarfod ag ef.

## 5 Sampl o gwestiynau i'w gofyn am y dull o leihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol

Nid yw'r cwestiynau hyn yn rhai hollgynhwysfawr ac maent yn enghreifftiau o gwestiynau y gellid eu defnyddio mewn trafodaethau gyda disgyblion, staff ac arweinwyr i gasglu gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol:

**Maes arolygu 1**

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr:**

1 Pa mor dda y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel:

- yn gwneud cynnydd o'u man cychwyn?
- yn cymhwyso eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i sefyllfaoedd newydd, yn yr ystafell ddosbarth, a'r tu allan?
- yn meddu ar y medrau llythrennedd (Cymraeg / Saesneg), rhifedd a digidol sydd eu hangen arnynt, ac yn eu defnyddio yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm?
- yn datblygu eu medrau creadigol a chorfforol, yn datrys problemau ac yn dod o hyd i atebion amgen a chreadigol?
- yn datblygu eu medrau technegol a galwedigaethol?
- yn datblygu eu medrau cymdeithasol?
- yn datblygu'r medrau sydd eu hangen arnynt i'w paratoi ar gyfer bywyd yn y dyfodol?

2 Sut mae cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel yn cymharu â disgyblion eraill? A ydynt yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent? A gaiff eu cyfraddau cynnydd eu cyflymu?
3 Sut beth yw eu cynnydd o un sector i un arall, a thrwy gydol y flwyddyn ysgol?
4 Ym mha feysydd y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel yn gwneud y cynnydd mwyaf neu'r cynnydd lleiaf?
5 Pa mor dda y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel yn cyflawni yn gyffredinol?
6 Sut mae cyrhaeddiad cyffredinol disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel yn cymharu â disgyblion eraill?

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff:**

1 Pa gynnydd y mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel yn ei wneud? Sut mae hyn yn cymharu â disgyblion eraill?
2 Ym mha feysydd maen nhw'n gwneud yn well? Pa feysydd sydd angen eu gwella fwyaf?

## Maes arolygu 2

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr:**

1 Sut beth yw lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel o gymharu â disgyblion eraill? Sut ydych chi'n gwybod?
2 Sut mae lefelau presenoldeb ar gyfer disgyblion sydd dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol yn cymharu â disgyblion eraill?
3 A yw llawer o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o aelwydydd incwm isel yn ymgymryd â rolau arwain neu swyddi â chyfrifoldeb?

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff:**

1 A yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyfrannu'n dda at wersi a thrafodaethau dosbarth? Sut mae eu cyfraniad yn cymharu â disgyblion eraill?
2 A yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth, ac yn ystod amser chwarae?
3 A oes gennych chi unrhyw bryderon am les disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
4 A yw unrhyw ddisgyblion o deuluoedd incwm isel yn absennol yn barhaus?
5 A oes gan unrhyw ddisgyblion o deuluoedd incwm isel broblemau ymddygiad?

## Maes arolygu 3

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr:**

1 Sut ydych chi wedi trefnu'r cwricwlwm fel bod disgyblion sydd dan anfantais oherwydd tlodi yn cael mynediad cyfartal?
2 Sut mae pob aelod o staff yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod addysgu a darpariaeth yn cefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gael dyheadau ar gyfer y dyfodol?
3 Pa effaith y mae ymyrraeth yn ei chael ar fedrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
4 Sut ydych chi'n rhoi darpariaeth ychwanegol ar waith i gyfoethogi'r cwricwlwm heb roi gofidiau ariannol i deuluoedd incwm isel?
5 Beth yw eich llwyddiannau mwyaf o ran sicrhau mynediad cyfartal at y cwricwlwm i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel?
6 Sut ydych chi'n sicrhau nad yw disgyblion o deuluoedd incwm isel dan anfantais yn ddigidol?
7 Sut ydych chi'n sicrhau mynediad cyfartal at y celfyddydau a gweithgareddau cerddorol?
8 Beth yw polisi'r ysgol ar gyfer gosod targedau i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o aelwydydd incwm isel? Sut ydych chi'n sicrhau bod gan bob un o'r staff ddisgwyliadau uchel ohonyn nhw?

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff:**

1 Sut ydych chi'n gosod targedau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel? A yw eich dull yn caniatáu ar gyfer cyfraddau cynnydd cyflymach?
2 Sut ydych chi'n targedu cymorth ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
3 Sut ydych chi'n addasu eich cynllunio i sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael y cyfle gorau i lwyddo?
4 Sut ydych chi'n sicrhau bod eich gwersi yn ysbrydoli disgyblion o deuluoedd incwm isel i gael dyheadau?
5 Sut ydych chi'n trefnu pethau y gallai fod iddynt oblygiadau o ran costau a allai atal disgyblion o deuluoedd incwm isel, er enghraifft teithiau ysgol?
6 Ydych chi'n gweithio gydag unrhyw ddarparwyr allanol i gyfoethogi'r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim? Sut caiff costau eu lleihau i'r eithaf?
7 Sut ydych chi'n defnyddio staff cymorth i gyflymu cynnydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?

| Maes arolygu 4 |
|---|

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr:**

1 Sut ydych chi'n trefnu cymorth ychwanegol ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel?
2 Sut ydych chi'n asesu, yn pennu ac yn blaenoriaethu angen disgyblion?
3 Pa gymorth ychwanegol ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel?
4 Pa wasanaethau cymorth arbenigol ydych chi'n gweithio gyda nhw i ddarparu cymorth ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel?
5 Sut ydych chi'n sicrhau nad yw unrhyw ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel yn cael effaith andwyol ar eu hunan-barch?
6 Sut ydych chi'n monitro cynnydd disgyblion o deuluoedd incwm isel?
7 Sut ydych chi'n sicrhau bod unrhyw gostau ychwanegol ar gyfer teuluoedd fel teithiau ysgol yn cael eu lleihau i'r eithaf?
8 Sut ydych chi'n monitro lles disgyblion o deuluoedd incwm isel?
9 Pa gymorth ymyrraeth gynnar ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel?
10 A oes gan yr ysgol rôl Swyddog Ymgysylltu â Theuluoedd neu rôl debyg ar hyn o bryd, h.y. rôl staff sydd â chyfrifoldeb penodol am ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned? Os oes, a oes gan y rôl hon drefniant gweithio hyblyg sy'n caniatáu i'r aelod staff weithio y tu allan i oriau ysgol arferol neu ar benwythnosau / yn ystod gwyliau gyda'u teuluoedd?

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff:**

1 Sut ydych chi'n sicrhau bod gan ddisgyblion o deuluoedd incwm isel lais yn yr ysgol?
2 Pa gyfleoedd ydych chi'n eu darparu i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel ddatblygu eu dealltwriaeth eu hunain o lwybrau gyrfa? Pa effaith mae hyn yn ei chael ar ddatblygu eu dyheadau?
3 Ydych chi'n gweithio gydag asiantaethau arbenigol i gefnogi disgyblion o deuluoedd incwm isel?
4 Sut ydych chi'n monitro cynnydd disgyblion o deuluoedd incwm isel?
5 Pa gymorth ychwanegol ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer lles disgyblion i ddisgyblion o deuluoedd incwm isel?
6 Sut ydych chi'n sicrhau mynediad cyfartal at gymorth ymyrraeth technoleg ddigidol? Er enghraifft, a yw pob un o'r disgyblion yn cael mynediad cyfartal at gyfrifiaduron neu ddyfeisiau digidol wrth wneud dysgu gartref?

| **Maes arolygu 5** |
|---|

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gydag arweinwyr:**

1 Beth yw'r weledigaeth ar gyfer lleihau rhwystrau rhag dysgu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu'r rhai o deuluoedd incwm isel?
2 Beth yw eich polisi ar gyfer sicrhau bod pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel, yn cael mynediad cyfartal at eu haddysg?
3 Sut ydych chi'n ymdrechu i leihau costau ar gyfer disgyblion a theuluoedd sydd ag incwm isel? Er enghraifft, sut ydych chi'n cynllunio teithiau, gan gynnwys ymweliadau dramor, gan ystyried y rhwystrau ariannol y gallai hyn eu creu i rai disgyblion?
4 Sut ydych chi'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion a Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar? Sut ydych chi'n monitro effaith hyn ac yn esbonio sut rydych chi'n gwerthuso ei effaith? Sut caiff hyn ei adrodd i lywodraethwyr a'r gymuned? (Gofynnwch am gael gweld datganiad y Grant Datblygu Disgyblion ar strategaeth yr ysgol ar fynd i'r afael â thlodi a gofyn lle caiff hwn ei gyhoeddi)
5 Sut ydych chi'n nodi disgyblion a theuluoedd sydd angen cymorth ariannol?
6 Sut ydych chi'n trefnu ymgysylltu â theuluoedd incwm isel? Pa gymorth ydych chi'n ei ddarparu?
7 Sut ydych chi'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i hyrwyddo a chyfeirio teuluoedd incwm isel at gymorth ychwanegol?
8 Ydych chi'n gweithio gydag unrhyw asiantaethau allanol i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion a'u teuluoedd incwm isel? Esboniwch sut mae hyn yn gweithio.
9 Beth ydych chi'n ei wybod am y gymuned leol? Pa ffynonellau ydych chi'n eu defnyddio i'ch helpu? (e.e. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru)
10 Sut ydych chi'n cynnwys y gymuned mewn gwneud penderfyniadau a darparu atebion?
11 Oes gennych chi swyddog ymgysylltu â theuluoedd? Esboniwch y gwaith y maent yn ei wneud.

12 Oes gennych chi lywodraethwr enwebedig ar gyfer mynd i'r afael â thlodi? Sut caiff ei gynnwys yng ngwaith yr ysgol? (Byddai'n ddefnyddiol cynnwys y llywodraethwr mewn cyfarfod.)
13 Pa asiantaethau sy'n cael eu cynnwys mewn mynd i'r afael ag anghenion disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai o deuluoedd incwm isel? Sut caiff y gwaith hwn ei gydlynu?
14 Pa ddysgu proffesiynol ydych chi'n ei ddarparu ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn deall anghenion disgyblion o deuluoedd incwm isel?
15 Ydych chi'n eich ystyried eich hun yn ysgol bro? Pam?
16 Sut ydych chi'n gwerthuso gwaith yr ysgol fel ysgol bro sy'n amcanu at fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion?
17 Fel llywodraethwyr, ydych chi'n gallu dweud wrthyf am waith yr ysgol ar fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad a lles disgyblion?
18 Fel llywodraethwyr, ydych chi'n ymwybodol o ddefnydd yr ysgol o unrhyw grantiau neu gyllid ychwanegol i gefnogi gwaith yr ysgol ar fynd i'r afael â thlodi?
19 A yw'r ysgol yn cynnig unrhyw wasanaethau, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol trwy gydleoli hybiau gwasanaethau yn eich ysgol? Os felly, pa wasanaethau sy'n cael eu cynnig?
20 A oes gan yr ysgol unrhyw bartneriaethau gyda sefydliadau'r trydydd sector ar hyn o bryd? Os felly, pa sefydliadau, a sut caiff y rhain eu defnyddio i gynorthwyo plant a theuluoedd?
21 A yw eich ysgol wedi cael unrhyw hyfforddiant amlddisgyblaethol i gefnogi'ch arferion? Os felly, nodwch ble cawsoch chi'r hyfforddiant hwn, e.e. ALI, consortia rhanbarthol, ysgol, arall.
22 A yw'r ALI wedi gweithio gyda'r ysgol i ddarparu unrhyw wasanaethau ychwanegol i'r plant a'r teuluoedd, e.e. gwasanaeth ieuenctid?
23 A yw ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn cael ei ystyried yn strategaeth effeithiol i wella'r ysgol ar gyfer yr ysgol?
24 Ym mha ffyrdd y caiff ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned eu monitro a'u gwerthuso yn yr ysgol ar hyn o bryd?

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda staff sydd â chyfrifoldeb am degwch economaidd-gymdeithasol, ymgysylltu â theuluoedd, y gymuned**

1 Esboniwch eich gwaith gyda theuluoedd incwm isel. Sut ydych chi'n meithrin perthnasoedd gyda theuluoedd incwm isel?
2 Pa asiantaethau eraill sy'n eich cynorthwyo yn y gwaith hwn?
3 Pa ymyriadau ydych chi'n eu darparu ar gyfer disgyblion a theuluoedd sydd ag incwm isel?
4 Ydych chi'n ymwybodol o'r Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar? Ydych chi'n gwybod sut mae hwn wedi cael ei ddefnyddio? Ydych chi'n cymryd rhan mewn monitro y Grant Datblygu Disgyblion? Beth sy'n gweithio'n dda ac yn cael yr effaith fwyaf?
5 Ydych chi'n ymwybodol o Grant Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion? Sut ydych chi wedi gwneud teuluoedd yn ymwybodol o hyn?
6 Sut ydych chi'n cadw costau i lawr ar gyfer disgyblion o deuluoedd incwm isel, er enghraifft wrth drefnu teithiau ysgol?

7 Ydych chi'n cynnal unrhyw hyfforddiant neu gymorth ar gyfer teuluoedd ar ymwybyddiaeth ariannol?
8 Sut ydych chi'n cynorthwyo teuluoedd sy'n ei chael yn anodd yn ariannol?
9 Sut ydych chi'n cynorthwyo teuluoedd incwm isel i helpu eu plant â'u haddysg gartref?
10 Ydych chi'n cynnal unrhyw fentrau penodol i gynorthwyo plant a'u teuluoedd sydd ag incymau isel?
11 Pa ddulliau ydych chi wedi eu defnyddio i gryfhau ymgysylltu â theuluoedd yn eich lleoliad?
12 A yw eich ysgol yn cynnig unrhyw raglenni penodol ar rianta neu atgyfeirio at sefydliadau sydd yn eu cynnig, e.e. Gweithredu dros Blant?
13 A oes gan yr ysgol ardal benodol i rieni a theuluoedd ei defnyddio ar hyn o bryd, e.e. ystafell i rieni? Os felly, ym mha ffyrdd y caiff y gofod hwn ei ddefnyddio ar hyn o bryd?
14 Ym mha ffyrdd ydych chi'n ymgynghori â rhieni ar hyn o bryd i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed?
15 A oes gan yr ysgol fforwm / corff rhieni neu rywbeth tebyg ar hyn o bryd?
16 Pa ddulliau ydych chi wedi eu defnyddio i gryfhau ymgysylltu â'r gymuned yn eich lleoliad?
17 A yw'r ysgol yn agor ei chyfleusterau ar gyfer unrhyw ddefnydd cymunedol ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r rhain?
18 A yw eich ysgol yn cynnig unrhyw wasanaethau a gweithgareddau i blant a theuluoedd y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ar hyn o bryd?
19 A yw eich ysgol yn cynnig neu'n cydlynu unrhyw sesiynau dysgu oedolion / dysgu yn y gymuned?
20 A yw eich ysgol yn cynnig unrhyw gyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cymunedol ar hyn o bryd? Os felly, beth yw'r rhain?
21 A yw eich ysgol yn cynnig unrhyw fentrau cymorth bwyd ar hyn o bryd, e.e. banc bwyd ar y safle, ac ati?
22 A yw'r ysgol yn cynnig cyfleoedd i aelodau o'r gymuned / sefydliadau cymunedol rannu eu medrau a'u hamser â'r ysgol? Os felly, ym mha ffyrdd mae hyn yn digwydd?

**Enghreifftiau o gwestiynau i'w defnyddio gyda grwpiau bro:**

Os oes gan ysgol bartneriaethau sylweddol gyda sefydliadau cymunedol, efallai bydd arolygwyr eisiau ystyried grŵp ffocws gyda'r sefydliadau hyn. Isod, ceir sampl o gwestiynau y gellid eu gofyn i grŵp bro:

1 Sut ydych chi'n cynorthwyo'r ysgol / yn gweithio gyda'r ysgol i leihau effaith incwm isel ar ddisgyblion a theuluoedd? Pa mor dda y mae'r trefniant hwn yn gweithio?
2 A yw'r ysgol byth yn gofyn am adborth ar eu gwaith gyda chi a'ch gwaith gyda disgyblion o deuluoedd incwm isel? Ydyn nhw neu ydych chi wedi newid unrhyw beth o ganlyniad i adborth?
3 Ydych chi'n cyfathrebu â'r ysgol, ac yn cael cyfarfodydd â'r ysgol, yn rheolaidd am y cynnydd sy'n cael ei wneud?
4 A oes yna unrhyw rwystrau i'r gwaith hwn?

5 Sut mae'r ysgol yn meithrin perthnasoedd gyda theuluoedd a'r gymuned? Pa mor effeithiol yw hyn?
6 Beth yn fwy gallai'r ysgol ei wneud i gynorthwyo disgyblion o deuluoedd incwm isel, yn eich barn chi?
7 A yw'r ysgol wedi darparu unrhyw gyfleoedd hyfforddi i chi gefnogi'r gwaith rydych chi'n ei wneud, neu a ydych chi wedi darparu hyfforddiant ar gyfer staff ysgol?
8 Sut mae'r ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â chi i ddarparu ymyrraeth a chymorth cynnar ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a theuluoedd incwm isel?

## Atodiad 1: Cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim a diffinio aelwydydd incwm isel

Bydd rhai plant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dibynnu ar incwm eu haelwyd. Bydd yna aelwydydd incwm isel eraill nad ydynt yn bodloni meini prawf cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd ar gyfer yr holl ddisgyblion ysgolion cynradd hefyd. Yn yr atodiad hwn, rydym yn esbonio'r gwahaniaethau rhwng y pethau hyn.

### Prydau Ysgol Am Ddim

Mae cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim yn dibynnu ar incwm aelwyd a ph'un a yw rhieni'n derbyn rhai budd-daliadau. Efallai bydd plant y mae eu rhieni'n derbyn y taliadau cymorth canlynol yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI Deddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Credyd Treth Plant, ar yr amod nad oes ganddynt hawl i gael Credyd Treth Gwaith a bod eu hincwm blynyddol, yn unol ag asesiad gan Gyllid a Thollau EM, yn fwy nag £16,190
- Elfen gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth
- Credyd Treth Gwaith 'ychwanegol' – y taliad y gallai rhywun ei gael am bedair wythnos arall ar ôl yr adeg pan nad yw'n gymwys i gael Credyd Treth Gwaith mwyach
- O 1 Ebrill 2019, Credyd Cynhwysol, ar yr amod nad yw'r aelwyd yn ennill incwm blynyddol net sy'n fwy na £7,400 (yn unol â'r asesiad o enillion o hyd at dri o'u cyfnodau asesu diweddaraf)

Caiff prydau ysgol am ddim eu dyfarnu lle mae'r rhiant neu'r disgybl yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd, a bod cais am brydau ysgol am ddim wedi cael ei wneud gan y rhiant, neu ar ei ran.

Efallai bydd pobl ifanc sy'n derbyn Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Credyd Cynhwysol, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm yn eu hawl eu hunain yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim hefyd.

Bydd angen i'r plentyn fynychu'r ysgol yn amser llawn hefyd, sy'n gallu cynnwys diwrnodau llawn yn y dosbarth meithrin a myfyrwyr chweched dosbarth.

Gellir cael gwybodaeth am gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim ar gyfer 2020/21 yma.

**Prydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM)**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn argaeledd prydau ysgol am ddim, gan ddechrau â'r dysgwyr ieuengaf. Y nod yw y bydd pob disgybl ysgol gynradd yn gallu cael pryd ysgol am ddim erbyn 2024.

O fis Medi 2022, dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y plant ieuengaf yn gallu manteisio ar y cynnig Prydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM). Bydd y ffordd y caiff hyn ei gyflwyno yn wahanol rhwng awdurdodau lleol; er enghraifft, mewn rhai awdurdodau lleol, mae hyn yn dechrau gyda disgyblion meithrin a derbyn (e.e. Sir Gaerfyrddin) ond mewn awdurdodau eraill, mae hyn eisoes wedi cael ei ymestyn i ddisgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 (e.e. Casnewydd).

Nid yw'r cynnig Prydau Ysgol am ddim i holl Blant Ysgolion Cynradd (UPFSM) yn dibynnu ar incwm aelwyd na ph'un a yw rhieni'n derbyn unrhyw fudd-daliadau; mae pob plentyn yn y grwpiau blwyddyn hyn yn gymwys i fanteisio ar y cynnig. Mae'r prydau ar gael yn ystod y tymor ysgol yn unig, ac nid yn ystod y gwyliau ysgol.

**Aelwydydd incwm isel**

Ystyrir bod unigolyn mewn tlodi os yw incwm ei aelwyd yn disgyn islaw 60% canolrif y DU (sef y gwerth canol mewn rhestr o rifau sydd wedi cael eu trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf).

Yr incwm aelwyd wythnosol canolrifol yn y DU yw £476 ar ôl costau tai, a 60% o hyn yw tua £286.

Rydym yn diffinio bod unigolyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol os yw'n byw ar aelwyd lle mae cyfanswm incwm yr aelwyd o'r holl ffynonellau yn llai na 60% o incwm aelwydydd cyfartalog y DU (fel y rhoddwyd gan y canolrif). Mae'r ffigurau isod yn ymwneud â thlodi cymharol yng Nghymru ar ôl talu costau tai fel taliadau llog ar forgais / rhent, ardrethi dŵr ac yswiriant strwythurol tai.

https://llyw.cymru/mesurau-tlodi-ebrill-2020-i-fawrth-2021-html

## Atodiad 2: Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol (GALIL)

Mae'r ddogfen **Grant Amddifadedd Disgyblion – Canllawiau Hanfodol** (Llywodraeth Cymru, 2015) yn nodi y bydd dyraniadau grant yn cael eu talu trwy'r consortia gwella ysgolion rhanbarthol ddwywaith y flwyddyn. Caiff y grant ei ddirprwyo 100 y cant i ysgolion / lleoliadau'r blynyddoedd cynnar yn achos yr elfen plant sy'n derbyn gofal a fydd yn cael ei rheoli'n rhanbarthol gan y consortia. Mae atodiad 3 o'r ddogfen yma yn amlinellu ein disgwyliadau am 2022/23.

Mae'r ddogfen yn datgan hefyd y bydd consortiwm rhanbarthol ysgol / gwasanaeth gwella ysgolion:

- yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio'n effeithiol, gan wneud yn siŵr fod cynlluniau datblygu ysgolion yn amlinellu uchelgeisiau a chynlluniau clir ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella cyrhaeddiad plant o gefndiroedd difreintiedig
- yn sicrhau bod ysgolion yn monitro a gwerthuso effaith eu strategaethau
- yn herio ysgolion i osod targedau estynedig
- yn adennill y grant pan fydd tystiolaeth ei fod wedi cael ei wario'n amhriodol neu'n aneffeithiol

Mae'r consortia rhanbarthol yn gyfrifol am ddatblygu dull strategol o ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn effeithiol. Er bod y cyllid hwn yn cael ei ddirprwyo i'r consortia, mae awdurdodau lleol yn cadw cyfrifoldeb am blant sy'n derbyn gofal yn eu rôl fel rhiant corfforaethol.

Bydd angen i Awdurdodau Lleol / Consortia Addysg Rhanbarthol gyflwyno Cynllun Cymorth i Lywodraeth Cymru yn amlinellu sut byddant yn sicrhau bod defnydd effeithiol yn cael ei wneud o'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi'r wyth maes a amlinellwyd yn flaenorol.

Bydd angen i ni ddarparu gwybodaeth am y pedwar maes canlynol:

- **Ysgolion / Lleoliadau**
  - Sut byddant yn sicrhau bod ysgolion / lleoliadau yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i fynd i'r afael â'r elfennau sy'n cael eu amlinellu yn Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb, gyda ffocws penodol ar ddysgu ac addysgu ac ysgolion cymunedol.
  - Sut byddant yn sicrhau bod ysgolion / lleoliadau yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar ddulliau wedi'u llywio gan dystiolaeth a nodwyd yn y canllawiau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu llunio, ac ym Mhecyn Cymorth Addysgu a Dysgu'r Sefydliad Gwaddol Addysgol.
  - Y dysgu proffesiynol, y byddant yn ei ddarparu i gefnogi'r uchod.
  - Sut byddant yn monitro a gwerthuso effaith y dulliau a ddefnyddir gan ysgolion / lleoliadau.

**Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal**

- Sut byddant yn sicrhau bod defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal hefyd yn adlewyrchu'r wyth elfen o Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb Llywodraeth Cymru trwy ddull strategol, lleol / rhanbarthol yn unol â'r telerau a'r amodau a amlinellir uchod i ysgogi gwelliannau yn neilliannau addysgol dysgwyr sy'n derbyn gofal a dysgwyr sy'n derbyn gofal yn ffurfiol.

**Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar**

- Sut byddant yn gweithio gyda darparwyr Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion wrth gefnogi Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru, tra'n cryfhau cysylltiadau â'r lleoliadau nas cynhelir (yn unol â'r telerau a'r amodau a amlinellir uchod).

**Addysg Heblaw yn yr Ysgol**

- Sut byddant yn gweithio gydag UCDau ac awdurdodau lleol i sicrhau eu bod yn gwneud defnydd effeithiol o elfen addysg heblaw yn yr ysgol y grant i gefnogi'r wyth maes allweddol a amlinellir yn Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb.

**Trywyddau ymholi / cwestiynau arolygu lleol a awgrymir ar gyfer arolygiada o GALIL**

- Beth yw eich strategaeth ar gyfer mynd i'r afael ag effaith tlodi a sut caiff hon ei rhannu ag ysgolion? I ba raddau y caiff y strategaeth ei deall gan bob ysgol?
- Sut ydych chi'n gwerthuso cynnydd a lles disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel yn yr awdurdod hwn?
- Pa drefniadau sydd ar waith i fonitro perfformiad, cynnydd a lles disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel? Pa dystiolaeth ydych chi'n ei defnyddio i lywio'ch barn? Er enghraifft, ydych chi'n olrhain y bobl ifanc hyn i addysg a hyfforddiant ôl-16?
- Beth allwch chi ei ddweud wrthym am berfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel yn yr awdurdod ym mhob cam dysgu? Beth yw'r tueddiadau dros gyfnod?
- Sut ydych chi'n defnyddio'r wybodaeth hon i gynllunio'n strategol i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn?
- Pa mor effeithiol yw'r strategaeth hon a pha effaith y mae'n ei chael ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion?
- A oes yna unigolyn dynodedig sydd â chyfrifoldeb am fonitro perfformiad y grŵp hwn neu ai'r consortiwm rhanbarthol sydd â chyfrifoldeb am hyn? Os felly, sut mae'r awdurdod yn gwybod bod anghenion ei ddisgyblion yn cael eu diwallu?
- Pa mor llwyddiannus fu'r rôl hon o ran gwella cynnydd, lles a llwyddiant disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim / disgyblion o aelwydydd incwm isel? Ydych chi'n gallu rhoi enghreifftiau penodol?
- Sut ydych chi'n gweithio ar draws cyfarwyddiaethau i gysylltu'r cymorth ar gyfer y disgyblion hyn? Pa enghreifftiau a geir o weithio'n llwyddiannus ar draws cyfarwyddiaethau neu wasanaethau?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod yr holl ysgolion yn cael y cymorth a'r her sydd eu hangen arnynt o ran gwella darpariaeth a deilliannau ar gyfer y disgyblion hyn?

- Pa gymorth / datblygiad proffesiynol a gaiff arweinwyr ysgolion, athrawon a staff cymorth? Pa mor effeithiol yw hyn o ran gwella deilliannau?
- Sut ydych chi'n monitro'r defnydd o Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar / Grant Datblygu Disgyblion?

  i) Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn eich awdurdod yn defnyddio cyllid grant ar gyfer disgyblion dan anfantais, a sut ydych chi'n gwybod? At ei gilydd, beth yw'r cryfderau a'r gwendidau?
  ii) A oes trefniadau i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau i wario'r Grant Datblygu Disgyblion? Ydych chi'n monitro unrhyw werthusiadau o wario grant blaenorol?
  iii) Beth sy'n digwydd os nad yw ysgol yn defnyddio'r cyllid yn briodol?
  iv) Beth sy'n digwydd os oes arfer arbennig o dda?
  v) Ydych chi'n gallu nodi unrhyw arfer arbennig o dda o ran defnyddio cyllid grant?
  vi) A oes yna unrhyw drefniadau i gynorthwyo ysgolion â symiau llai o gyllid grant i gydweithio er mwyn uchafu effaith y cyllid?

- A oes yna unrhyw enghreifftiau o arfer arloesol i gynorthwyo dysgwyr sy'n anos eu cyrraedd, fel disgyblion sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol? Unrhyw enghreifftiau o bartneriaethau arloesol rhwng ysgolion a sefydliadau ieuenctid / gwirfoddol?
- Rydym yn ymwybodol mai'r consortiwm rhanbarthol sydd â'r cyfrifoldeb cynllunio strategol am y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Fodd bynnag, yr awdurdod yw'r rhiant corfforaethol o hyd. Gyda hyn mewn cof, sut ydych chi'n monitro'r cynllunio a'r ddarpariaeth trwy'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn eich gofal?
- Pa mor effeithiol ydych chi'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a sut ydych chi'n gwybod?

Elfennau penodol posibl

- Beth yw'r cyfraddau absenoldebau parhaus ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim / disgyblion o deuluoedd incwm isel? A yw'r awdurdod yn monitro'r rhain? Beth ydych chi'n gwneud i gynorthwyo / herio ysgolion i ostwng cyfraddau absenoldeb parhaus ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim?
- Pa drefniadau sydd ar waith i wella ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned yn eich ysgolion?
- Pa strategaethau ymyrraeth gynnar sydd gennych chi i gynorthwyo'r grŵp hwn o ddisgyblion a theuluoedd?
- Beth mae eich gwybodaeth ddechreuol yn ei ddweud wrthych am ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol? Pa ddefnydd ydych chi'n ei wneud o'r wybodaeth hon?
- Ydych chi'n cymryd rhan mewn unrhyw bartneriaethau ymchwil, er enghraifft gyda phrifysgol? Beth sydd wedi digwydd o ganlyniad?

- Beth yw strategaeth yr awdurdod lleol i gefnogi datblygiad ysgolion cymunedol? Sut mae hyn wedi dylanwadu ar Raglen Ysgolion yr ALl ar gyfer yr 21ain Ganrif?
- Beth yw'r dull ar gyfer defnyddio cyllid LlC i gefnogi datblygiad Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd a Rheolwyr Cymunedol?

## Atodiad 3: Cyllid grant

Lluniodd Llywodraeth Cymru ystod o ganllawiau ar addysg plant difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion ac ar y Grant Mynediad Datblygu Disgyblion newydd y gellir eu defnyddio ar gyfer gwisg ysgol, offer, cit chwaraeon a gweithgareddau. Mae'r canllawiau hyn ar gael yn https://llyw.cymru/addysgu-plant-difreintiedig.

Ym mis Mehefin 2022, cyflwynodd Llywodraeth Cymru lythyr gwahoddiad Grant Datblygu Disgyblion (GDD) i gonsortia ac awdurdodau lleol ar gyfer blwyddyn ysgol 2022-2023. Mae'r llythyr yn amlinellu telerau ac amodau'r grant sydd wedi'u seilio i raddau helaeth ar agenda Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellwyd gan y Gweinidog yn ei ddatganiad llafar i Sefydliad Bevan (Mawrth 2022). Crynhoir prif elfennau'r llythyr fan hyn:

Mae'r defnydd o'r GDD yn arf allweddol er mwyn myd i'r afael effaith tlodi ar gyrhaeddiad. Gofynnir wrth y Consortia Rhanbarthol a'r awdurdodau i ddarparu:

- trosolwg strategol o'r defnydd o'r GDD wedi ei alinio gydag wyth maes allweddol Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb.
- cefnogaeth i ysgolion a lleoliadau i'w galluogi defnyddio'r grant yn y modd fwyaf effeithiol

Mae angen i awdurdodau addysg a chonsortia rhoi sylw teilwng i'r defnydd o'r GDD yng nghyd-destun holl elfennau o Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb, ond gyda ffocws penodol ar ddysgu ac addysgu ac ysgolion cymunedol.

Dylai ysgolion sydd â dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion:

- ddefnyddio dulliau wedi'u llywio gan dystiolaeth
- caniatáu ar gyfer cydweithio ag ysgolion a lleoliadau eraill
- rhannu arfer effeithiol
- monitro'r datganiadau strategaeth ar eu defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion a'i effaith, y mae angen iddynt eu cyhoeddi (gweler uchod)
- sicrhau bod arweinydd dynodedig ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais yn yr ysgol / y lleoliad sy'n derbyn y Grant Datblygu Disgyblion; gallai hwn fod yn arweinydd tegwch neu les neu'n rhywun mewn rôl fugeiliol – **mae'n bwysig nodi <u>na</u> fyddai'r Grant Datblygu Disgyblion <u>yn cael ei ddefnyddio</u> i ariannu'r rôl hon**; dylai'r arweinydd dynodedig fod yn aelod sefydledig o gymuned yr ysgol sy'n gyfarwydd â'i garfan
- sicrhau bod yr arweinydd dynodedig yn cymryd rhan mewn "rhwydweithiau" lleol a rhanbarthol o arweinwyr

## Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb

Mae Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb yn amlinellu nifer o fesurau i ddatblygu system addysg ragorol a theg trwy leihau anghydraddoldebau yn raddol yn y deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel. Y prif elfennau ar gyfer hyrwyddo llwyddiant:

- **Dysgu ac Addysgu o Ansawdd Uchel** – gyda ffocws penodol ar yr addysgeg a ddefnyddir gan athrawon, rôl staff cymorth a'r dysgu proffesiynol a ddarperir ar gyfer ymarferwyr
- **Ysgolion Cymundeol** – gyda phwyslais penodol ar rôl Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd
- Rôl yr ysgol yn y gymuned ehangach a gwaith gydag asiantaethau plant a theuluoedd eraill
- **Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar, datblygu ein gweledigaeth tymor hir i sicrhau tegwch ac ansawdd ar gyfer ein dysgwyr ieuengaf ble bynnag y maent yn cael addysg neu ofal sy'n cefnogi eu dysgu a'u datblygiad** - yn unol â defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar.
- **Iechyd a Lles Plant a Phobl Ifanc** – yn unol â'r Fframwaith ar Ymgorffori Ymagwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddyliol
- **Datblygu dyheadau uchel trwy berthnasoedd cryf** – yn gydnaws â rôl y Gwasanaeth Gyrfaoedd, y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, Gwarant i Bobl Ifanc a Rhwydwaith Seren
- **Y Cwricwlwm i Gymru a Chymwysterau** – yn canolbwyntio ar bwysigrwydd datblygiad iaith, metawybyddiaeth a hunanreoleiddio fel galluogwyr llwyddiant allweddol o fewn y cwricwlwm newydd a chynnig ystod eang o lwybrau cymwysterau i ddysgwyr
- **Arweinyddiaeth** – yn canolbwyntio ar bwysigrwydd hyn mewn goresgyn effaith tlodi ar gyrhaeddiad ac arweinyddiaeth ysgolion cymunedol
- **Dilyniant Ôl-16** – trwy feithrin partneriaethau cryf â sefydliadau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a darparwyr ôl-16 eraill

Dylai'r defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion ganolbwyntio ar bob un o'r elfennau hyn, yn enwedig y ddwy elfen gyntaf, y mae tystiolaeth yn awgrymu mai nhw sydd bwysicaf, yn enwedig wrth i ysgolion lywio trwy'r cwricwlwm newydd.

Dylid defnyddio hunanwerthusiad ysgol i nodi blaenoriaethau priodol ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion a chofnodi ei effaith.

Gellir gweld dyraniadau ysgolion unigol ar gyfer 2022-2023 am y Grant Datblygu Disgyblion, y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar a grantiau addysg heblaw yn yr ysgol gan awdurdodau lleol yma: Grant Datblygu Disgyblion a Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar: dyraniadau | LLYW.CYMRU

**Beth mae'n rhaid i ysgolion ei wneud**

O 2022-2023, bydd angen i ysgolion gwblhau a chyhoeddi datganiad ar eu strategaeth Grant Datblygu Disgyblion.

Hwn yw'r templed y bydd angen i ysgolion ei ddefnyddio:

**DATGANIAD AR STRATEGAETH GRANT DATBLYGU DISGYBLION**

**Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion am ddefnydd ein hysgol o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023.**

**Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn ystod y flwyddyn academaidd hon, a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd yn ein hysgol.**

*Os yw eich niferoedd yn 5 ac yn is, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn peidio â datgelu pwy yw'r plant.*

**Trosolwg o'r ysgol**

| Manylion | Data |
|---|---|
| Enw'r ysgol | |
| Nifer y disgyblion yn yr ysgol | |
| Cyfran (%) y disgyblion sy'n gymwys i gael y Grant Datblygu Disgyblion | |
| Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn | |
| Dyddiad y bydd hwn yn cael ei adolygu | |
| Datganiad wedi'i awdurdodi gan | |
| Arweinydd y Grant Datblygu Disgyblion | |
| Arweinydd o blith y Llywodraethwyr | |

**Trosolwg o'r cyllid**

| Manylion | Swm |
|---|---|
| Dyraniad cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd hon | £ |

| | |
|---|---|
| | |
| **Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y flwyddyn academaidd hon** | £ |

**Rhan A: Cynllun Strategaeth**

**Datganiad o Fwriad**

*Efallai y byddwch eisiau cynnwys gwybodaeth am y canlynol:*

*Beth yw eich amcanion yn y pen draw ar gyfer y disgyblion sy'n cael eu cynorthwyo?*

- *Sut mae eich cynllun strategaeth presennol yn gweithio tuag at gyflawni'r amcanion hynny?*
- *Beth yw egwyddorion allweddol eich cynllun strategaeth?*

**Deilliannau bwriadedig**

Mae hyn yn esbonio'r deilliannau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut byddwn yn mesur p'un a ydynt wedi cael eu cyflawni.

| Deilliant bwriadedig | Meini prawf llwyddiant |
|---|---|
| *Ychwanegwch resi, neu'u dileu, yn ôl yr angen* | |
| | |
| | |
| | |

**Gweithgarwch yn ystod y flwyddyn academaidd hon**

Mae hyn yn rhoi manylion am sut rydym yn bwriadu gwario ein Grant Datblygu Disgyblion **yn ystod y flwyddyn academaidd hon** i fynd i'r afael â'r heriau a restrir uchod.

| |
|---|
| |

**Dysgu ac addysgu**

Cost wedi'i chyllidebu: £ *[rhowch y swm]*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| *Ychwanegwch resi, neu'u dileu, yn ôl yr angen* | |
| | |

**Ysgolion cymundeol**

Cost wedi'i chyllidebu: £ *[rhowch y swm]*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| *Ychwanegwch resi, neu'u dileu, yn ôl yr angen* | |
| | |

**Strategaethau ehangach (er enghraifft, a lle bo'n berthnasol, Iechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)**

Cost wedi'i chyllidebu: £ *[rhowch y swm]*

| Gweithgaredd | Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn |
|---|---|
| *Ychwanegwch resi, neu'u dileu, yn ôl yr angen* | |
| | |

**Cyfanswm y gost wedi'i chyllidebu: £** *[rhowch swm 3 chyfanswm a nodir uchod]*

**Rhan B: Adolygiad o ddeilliannau yn y flwyddyn academaidd flaenorol**

**Deilliannau'r Grant Datblygu Disgyblion**

Mae hyn yn rhoi manylion am yr effaith a gafodd ein Grant Datblygu Disgyblion ar ddisgyblion yn ystod blwyddyn academaidd 2020 i 2021.

**Rhaglenni a ddarperir yn allanol**

*Cynhwyswch enwau unrhyw raglenni a brynoch yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i nodi pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.*

| Rhaglen | Darparwr |
|---|---|
| | |
| | |

**Gwybodaeth bellach (dewisol)**

*Defnyddiwch y gofod hwn i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach am eich strategaeth ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Er enghraifft, ynglŷn â chynllunio eich strategaeth, neu weithgaredd arall rydych chi'n ei roi ar waith i gynorthwyo disgyblion o aelwydydd incwm isel, nad yw'n ddibynnol ar y Grant Datblygu Disgyblion.*

Dylai ysgolion sydd â dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion:

- ddefnyddio dulliau wedi'u llywio gan dystiolaeth
- caniatáu ar gyfer cydweithio ag ysgolion a lleoliadau eraill
- rhannu arfer effeithiol
- monitro'r datganiadau strategaeth ar eu defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion a'i effaith, y mae angen iddynt eu cyhoeddi (gweler uchod)
- sicrhau bod arweinydd dynodedig ar gyfer dysgwyr sydd dan anfantais yn yr ysgol / y lleoliad sy'n derbyn y Grant Datblygu Disgyblion; gallai hwn fod yn arweinydd tegwch neu les neu'n rhywun mewn rôl fugeiliol – **mae'n bwysig nodi <u>na</u> fyddai'r Grant Datblygu Disgyblion <u>yn cael ei ddefnyddio</u> i ariannu'r rôl hon**; dylai'r arweinydd dynodedig fod yn aelod sefydledig o gymuned yr ysgol sy'n gyfarwydd â'i garfan
- sicrhau bod yr arweinydd dynodedig yn cymryd rhan mewn "rhwydweithiau" lleol a rhanbarthol o arweinwyr

Rhaid i bob ysgol gyhoeddi ei dyraniad Grant Datblygu Disgyblion ar-lein ac amlinelliad o'i chynlluniau diweddaraf i ddefnyddio'r cyllid i wella deilliannau ar gyfer plant difreintiedig. Os nad oes gan ysgol wefan ddynodedig, rhaid iddi drefnu bod y wybodaeth ar gael trwy wefan yr awdurdod lleol neu'r consortiwm neu fel rhan o wybodaeth am yr ysgol wedi'i chyhoeddi ar ffurf copi caled.

Os oes gan ysgol lai na phum dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dylai gyhoeddi datganiad am ddefnydd o'r grant, a'i effaith, ond ni ddylai ddatgelu nifer y

dysgwyr sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim na swm y dyraniad Grant Datblygu Disgyblion.

Nid oes rhaid i ysgolion greu cynllun ar wahân ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Gellir ei greu fel rhan o gynllun gwella ysgol ehangach.

**Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar**

Yn ogystal â’r Grant Datblygu Disgyblion, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid trwy’r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer dysgwyr cymwys mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn.

Ym mis Gorffennaf 2015, lluniodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar ddefnyddio’r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar, y gellir ei weld yn http://gov.wales/docs/dcells/publications/150720-eypdg-en.pdf

Mae’r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar yn ymestyn hawl cyllid grant a ddyrennir trwy’r Grant Datblygu Disgyblion i ddisgyblion mewn dosbarthiadau meithrin a derbyn mewn addysg y Cyfnod Sylfaen a ariennir. Dylid defnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar i greu effaith barhaus ar ddeilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Mae consortia rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio at y dibenion yr oedd wedi’u bwriadu.

Yn unol â’r Grant Datblygu Disgyblion, nod y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar yw cyflymu cyfradd cyrhaeddiad plant o bob gallu o aelwydydd incwm isel i’w helpu i gyrraedd eu llawn botensial. Nod y Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar yw darparu cymorth ychwanegol i’r dysgwyr ieuengaf – plant tair a phedair blwydd oed – o aelwydydd incwm isel fel eu bod yn gallu cyflawni deilliannau gwell ac yn gallu cyrraedd eu llawn botensial. Dylai’r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar ganolbwyntio ar ymyriadau a dulliau sy’n cefnogi datblygiad plant sy’n byw ar aelwydydd incwm isel, gan gydnabod y bydd mantais ychwanegol i'r cymorth hwn, sef y bydd pob un o’r dysgwyr yn elwa arno hefyd.

Yn unol ag wyth maes allweddol y cynllun gweithredu Safonau ac Uchelgeisiau Uchel, dylid rhoi sylw penodol i’r canlynol:

### Dysgu ac addysgu

Mae addysg gynnar o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygiad plant. Mae’r profiadau, y wybodaeth a’r medrau sydd eu hangen ar gyfer dysgu gydol oes, dinasyddiaeth weithgar a chyflogaeth yn y dyfodol yn dechrau yn y blynyddoedd cynnar.

Mae’r egwyddorion allweddol sy’n hanfodol ar gyfer dysgu cyfannol ac ystyrlon i’r holl blant yn dechrau gydag oedolion medrus, sylwgar sy’n dangos diddordeb, gan ddarparu profiadau dilys a difyr mewn amgylcheddau effeithiol a chyffrous. Mae perthnasoedd yn allweddol ar gyfer dysgwyr ifanc, ac mae cael cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ystyrlon ac o ansawdd da yn hanfodol. Mae hynny’n golygu bod angen i oedolion sy’n galluogi dysgu feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ddatblygiad plant. Bydd hyn yn

cynnwys egwyddorion dysgu yn seiliedig ar chwarae a sut i gefnogi dysgu wedi'i arwain gan blant.

Mae Galluogi dysgu yn amlinellu nodweddion allweddol addysgeg lwyddiannus, yn enwedig ar gyfer dysgwyr iau. Mae addysgeg effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy'n ymatebol, yn ddynamig ac wedi'i hymgorffori mewn perthnasoedd cryf, yn hanfodol. Mae hyn yn arbennig o wir gyda datblygiad iaith plentyn. Mae angen amser ar blant i ddatblygu medrau siarad a gwrando da. Mae profiadau o ansawdd uchel yn hanfodol i gynorthwyo plant i ddatblygu medrau cymdeithasol a chyfathrebu. Dylai amgylcheddau fod yn gyfoethog o ran cyfathrebu. Mae chwarae yn hanfodol i ddatblygiad corfforol, deallusol a chreadigol. Trwy ddysgu yn seiliedig ar chwarae, gall profiadau plentyn ganolbwyntio ar weithgareddau creadigol a datrys problemau. Dylai plant fod yn gyfranogwyr gweithgar yn eu dysgu.

Mae plant yn dysgu'n dda pan fyddant yn mynd ati i ymgysylltu â phrofiadau sy'n ennyn eu diddordeb, yn tanio eu dychymyg ac yn ysbrydoli chwilfrydedd. Gall profiadau bywyd go iawn alluogi plant i gymryd yr awenau mewn gofyn cwestiynau, nodi problemau, mentro a dod o hyd i atebion. Gall pob un o'r rhain gynorthwyo cynnydd ar gyfer pob dysgwr.

**Ymgysylltu â theuluoedd**

Mae plant mewn ysgolion neu leoliadau am gyfran fach o'u diwrnod. Mae llawer o'u datblygiad cynnar yn digwydd yn eu cartrefi neu yn eu cymunedau. Rydym yn gwybod bod cyfoeth yr amgylchedd dysgu gartref – cael cymorth gan rieni a chael y cyfleoedd i ymgymryd â dysgu - yn hollbwysig i gynnydd plant yn ystod y blynyddoedd cynnar. Mae hyn wedi dod hyd yn oed yn fwy amlwg yn ystod dysgu gartref o ganlyniad i'r pandemig.

Mae ymgysylltu effeithiol â theuluoedd yn cynnwys cyfathrebu rheolaidd rhwng y lleoliad / yr ysgol a'r cartref a chyfleoedd i rieni ddysgu sut orau y gallant gefnogi dysgu eu plant.

**Arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol**

Mae angen dysgu proffesiynol o ansawdd uchel ar ffyrdd effeithiol o weithio gyda'r plant a'r teuluoedd mwyaf difreintiedig ar ymarferwyr sy'n cynorthwyo plant ifanc sy'n manteisio ar ddarpariaeth mewn addysg a gofal plentyndod cynnar, boed hynny mewn ysgolion neu leoliadau. Bydd hyn yn arbennig o wir mewn meysydd fel datblygiad iaith, medrau meddwl, ymgysylltu â theuluoedd, Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod a goresgyn trawma. Hefyd, bydd angen iddynt gael dealltwriaeth fanwl o ddatblygiad plant i sicrhau na chaiff y camau datblygiadol hyn eu rhuthro ar gam. Mae gan ymarferwyr rôl allweddol yn natblygiad plentyn ifanc o ran ei ddatblygiad cymdeithasol ac emosiynol, yn ogystal â'i ddatblygiad gwybyddol. Ni ellir tanamcangyfrif buddion dysgu yn yr awyr agored i gefnogi'r anghenion datblygiadol hyn.

Mewn ysgolion, mae staff cymorth yn gyfran fwy o'r gweithlu nag athrawon erbyn hyn, ac mae ganddynt anghenion dysgu proffesiynol penodol o ran sut orau y gellir eu defnyddio.

Mae angen eu dysgu proffesiynol eu hunain ar arweinwyr ysgolion a lleoliadau. Bydd hyn yn eu galluogi i weithredu'n effeithiol wrth oresgyn anghydraddoldebau, gweithio gyda theuluoedd, cymunedau ac asiantaethau eraill fel bod pob dysgwr yn elwa.

I'r holl ymarferwyr, dylai dysgu proffesiynol ddefnyddio tystiolaeth ymchwil a galluogi ymarferwyr i gysylltu hyn â'u cyd-destun eu hunain trwy gynnal ymholiadau proffesiynol.

Mae deunyddiau cymorth newydd ar gyfer ymarferwyr ar Ddatblygiad Plant; Arsylwi, Chwarae a dysgu yn seiliedig ar chwarae; Dysgu yn yr Awyr Agored a dysgu dilys a phwrpasol, ar gael ar Hwb . Mae'r modiwlau yn adlewyrchu egwyddorion Galluogi Dysgu a'r Cwricwlwm ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir.

**Telerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar – 2022-23**

I sicrhau defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar, dylai'r consortiwm:

- ganolbwyntio ar y 3 maes a amlinellir uchod
- canolbwyntio ar ddulliau ysgol gyfan
- nodi lleoliadau sy'n dangos arfer effeithiol mewn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar fel y gellir ei rannu'n ehangach
- cynorthwyo lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir i feithrin cysylltiadau agosach i sicrhau bod mwy o wybodaeth ac arferion yn cael eu rhannu, a chefnogi cyfnod pontio dysgwyr unigol
- gweithio'n agosach gyda Dechrau'n Deg i adeiladu ar y cymorth a ddarperir eisoes, cynyddu cyfathrebu a chryfhau prosesau pontio
- parhau i roi arweiniad i staff mewn lleoliadau ar y canlynol:
    - dulliau priodol o nodi plant a fyddai'n elwa ar gymorth ychwanegol trwy'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar
    - nodi anghenion cymorth, mesur cynnydd a gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau
- dylid ymgynghori â lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir ar sut y dylid defnyddio cyllid, a dylid casglu data ar ddefnydd o gyllid

Mae'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal mewn addysg orfodol. Dylai'r consortia addysg rhanbarthol ei ddefnyddio i gyflwyno ymyriadau wedi'u targedu'n well ac yn hyblyg yn strategol ar sail ranbarthol. Mae hyblygrwydd wedi cael ei gynnwys yn y telerau a'r amodau er mwyn galluogi cyllid i gefnogi ymyriadau wedi'u hanelu at blant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol sydd wedi cael eu mabwysiadu o ofal neu sy'n destun gorchymyn gwarchodaeth arbennig hefyd.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol am y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ar gael yma.

Telerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar – 2022-23:

- cymorth a reolir yn rhanbarthol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- dylid darparu cymorth, fel y bo'n briodol, hefyd trwy'r grant ar gyfer plant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael eu mabwysiadu
- cymorth trwy'r grant i fod o fudd anghyfartal i blant sy'n derbyn gofal a phlant a fu'n derbyn gofal yn y gorffennol, gan gyfrannu at ddatblygu ysgolion cynhwysol sydd wedi ymrwymo i degwch a lles, fel bod pob dysgwr yn elwa
- bod strategaeth ranbarthol ar waith, wedi'i goruchwylio gan y cydlynydd arweiniol rhanbarthol sy'n gyfrifol am reoli'r grant
- strwythur rhanbarthol wedi'i gytuno rhwng consortia ac awdurdodau lleol ar lefelau priodol i sicrhau penderfyniadau a llinellau atebolrwydd
- cydlynydd arweiniol rhanbarthol i gyflawni dibenion craidd y rôl, a gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys Arweinwyr y Grant Datblygu Disgyblion
- cydlynwyr arweiniol rhanbarthol i weithio'n agos gydag arweinwyr awdurdodau lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys Penaethiaid Ysgolion Rhithwir lle bo'n berthnasol i ddeall anghenion lleol
- cydlynwyr arweiniol rhanbarthol i gysylltu gwybodaeth a chyfleu arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ar draws rhanbarthau
- bydd cyllid yn mynd i glystyrau o ysgolion a lleoliadau i feithrin capasiti a darparu ymyriadau teilwredig, y mae angen i'r naill a'r llall ohonynt ddiwallu anghenion dysgwyr unigol a bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac effaith
- dylid bod wedi nodi anghenion cyllid ar gyfer blaenoriaethau rhanbarthol yn y strategaeth ranbarthol a'u cytuno trwy'r strwythurau atebolrwydd
- dull yn canolbwyntio ar yr unigolyn i gofnodi safbwyntiau'r dysgwr i'w defnyddio i lywio cynlluniau clwstwr a'r strategaeth ranbarthol
- i fesur effaith y strategaeth, mae angen dull rhanbarthol sy'n ymgysylltu ag ysgolion unigol i sicrhau bod cynnydd plant sy'n derbyn gofal yn cael ei fonitro a'i asesu'n rheolaidd; bydd gofyn cael mynediad at ddata priodol a'i ddadansoddi ar gyfer hyn, sy'n golygu y bydd angen cytuno ar ddull rhanbarthol i rannu data perthnasol (sicrhau cydymffurfio â'r GDPR a bod cytundebau priodol i rannu data ar waith)
- dylid nodi unrhyw rolau a ariennir trwy'r grant yn y strategaeth ranbarthol. Dylai penderfyniadau am strwythurau rhanbarthol ynghylch ariannu rolau ystyried cynaliadwyedd y rolau y tu hwnt i oes y grant
- dylai fod gan ranbarthau system werthuso ar waith yn gysylltiedig â'r strategaeth ranbarthol. Dylid defnyddio gwybodaeth a gasglwyd trwy werthuso, gan gynnwys effaith, gwerth am arian a chynnydd wrth adrodd ar bob lefel
- gweithredu'r strategaeth ranbarthol, gofyn am ymrwymiad ar y cyd gan bawb dan sylw, gan gynnwys gwasanaethau gwella ysgolion, gwasanaethau cynhwysiant a phartneriaid allweddol eraill;
- dylai'r holl weithgarwch yn gysylltiedig â'r grant ystyried cynaliadwyedd y tu hwnt i oes y grant

## Atodiad 4: Ffynonellau gwybodaeth defnyddiol

Gellir gweld cyhoeddiadau Estyn sy'n gysylltiedig â thlodi ac anfantais gymdeithasol yn https://www.estyn.llyw.cymru/

Dogfennau defnyddiol eraill:

Plant yng Nghymru | Pris Tlodi Disgyblion

UK Poverty 2022: The essential guide to understanding poverty in the UK | JRF

MALIC - Hafan (llyw.cymru)

Plant yng Nghymru | Dileu Tlodi Plant – Ystadegau Tlodi Plant

Cipolwg ar dlodi yn Haf 2022 – Sefydliad Bevan

Datganiad Llafar: Safonau ac Uchelgeisiau Uchel i Bawb (22 Mawrth 2022) | LLYW.CYMRU

Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: adroddiad terfynol (llyw.cymru)

Gwerthusiad o weithredu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | LLYW.CYMRU

Gwerthusiad o weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn y Blynyddoedd Cynnar - NFER